

IECHYD

Gweithredoedd polisi allweddol mae UNSAIN am eu gweld gan lywodraeth Cymru yn y dyfodol

Yn ogystal â blaenoriaethau maniffesto cyffredinol UNSAIN Cymru, hoffai ein haelodau sydd yn y sector gofal iechyd i lywodraeth nesaf Cymru weithredu yn y meysydd a ganlyn.

Cryfhau Gweithio mewn Partneriaeth ar draws GIG Cymru ar lefelau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

Bu cynnydd gwirioneddol o ran meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng Llywodraeth Cymru, cyflogwyr y GIG ac undebau llafur yn ystod y pandemig, ac mae angen ailadrodd hyn ar lefel lleol gyda byrddau iechyd yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr staff lleol i sicrhau cysondeb wrth weithredu penderfyniadau a chytundebau sydd wedi cael eu ffurfio ar lefelau Cenedlaethol a Rhanbarthol.

Ymrwymiad hefyd gan gyflogwyr y GIG a byrddau iechyd lleol i sicrhau bod cynrychiolwyr etholedig UNSAIN yn cael amser rhydd â thâl, ynghyd â chyfleusterau priodol, i gyflawni eu dyletswyddau undeb mewn partneriaeth â byrddau iechyd. Mae hon yn un o dair blaenoriaeth allweddol UNSAIN Cymru: mae amser wedi'i neilltuo yn rhan annatod o ganiatáu i arweinwyr undeb ymgysylltu'n llawn ac annog gwir weithio mewn partneriaeth gymdeithasol.

Rhoi diwedd ar breifateiddio Gwasanaethau'r GIG yng Nghymru

Mae cyfansoddiad Pwyllgor Gofal Iechyd UNSAIN Cymru yn galw am roi diwedd ar breifateiddio gwasanaethau'r GIG. Rydyn ni am weld holl wasanaethau'r GIG yn cael eu darparu gan fyrddau/ymddiriedolaethau iechyd lleol, gyda staff wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG, ac rydym yn cefnogi'r maniffesto Llafur yn yr etholiad diwethaf a oedd yn adlewyrchu'r safiad hwn.

Mae'r GIG ar ei orau pan fydd yn darparu gwasanaethau'n sy'n ddi-dâl pan gânt eu defnyddio, a hynny gan staff hyfforddedig y GIG sy'n rhoi cleifion cyn elw. Ers yn rhy hir, mae gwasanaethau'r GIG yn y DU wedi cael eu gosod ar gontract allanol i gwmnïau preifat sy'n rhoi blaenoriaeth i'w cyfranddalwyr yn hytrach na'u cleifion a'u staff. Ni ddylai unrhyw wasanaethau GIG yng Nghymru fod yn destun contract allanol.

Mae angen i ni fuddsoddi yn ein GIG a'i staff. Mae angen i ni hefyd hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant er mwyn amddiffyn a chynorthwyo holl staff y GIG i ffynnu ac arallgyfeirio trwy gydol eu gyrfaoedd yma yng Nghymru.

Creu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol ar gyfer Cymru

Byddai hyn yn cysylltu â'n Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac yn destun cenfigen y DU ac Ewrop pe bai'n cael ei greu gyda staff wedi'u hyfforddi'n llawn yn rhoi cymorth i'r bobl fwyaf bregus yng Nghymru. Gellid cyflawni gweithio ar y cyd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol gyda graddfeydd cyflog cyffelyb, a fyddai o fudd i bobl Cymru. Dyma un o flaenoriaethau allweddol UNSAIN Cymru.

Parhad drosodd



Mae hyn yn rhan annatod o sicrhau bod gofal integredig proffesiynol a safonol yn cael ei ddarparu lle mae ei angen orau, naill ai yn yr ysbyty neu gartref. Ers yn llawer rhy hir, mae gofal cymdeithasol wedi bod yn Sinderela'r sector gofal. Mae arnom angen staff mewnol wedi'u hyfforddi'n llawn ac wedi'u talu'n well i gyflawni'r rôl.

Hyrwyddo recriwtio a dargadwedd staff y GIG yng Nghymru

Mae blynyddoedd o doriadau cyflog wedi golygu bod miloedd o staff yn gadael y GIG ac yn chwilio am waith yn rhywle arall. Ni all fod yn iawn fod staff hyfforddedig y GIG yn gadael i weithio mewn archfarchnadoedd oherwydd eu bod yn gallu gweithio yno heb yr un lefel o straen, ac oherwydd nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn gweithio yn y GIG.

Mae angen i ni fuddsoddi yn y gweithlu presennol i recriwtio cenhedlaeth newydd o staff y GIG a'i wneud **y** lle i weithio yng Nghymru.

Mae angen i ni annog diwylliant o "feithrin ein pobl ein hun" a rhoi cyfle i staff sydd eisiau symud ymlaen yn y GIG i fynd ymhellach yn y gyrfaedd o'u dewis. Gall hyn wella recriwtio a dargadwedd a llenwi'r gwagle recriwtio sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Mae angen i ni ddefnyddio mwy ar brentisiaethau, a mynd i mewn i ysgolion a cholegau gan arddangos y GIG fel lle delfrydol i sefydlu gyrfa a chyflogwr y gall pobl fod yn falch o weithio iddo.